**CYPE(6)-05-21 - Papur i'w nodi 14**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
—
## Children, Young People and Education Committee

—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Dyddiad | Date: 29 Hydref

Pwnc | Subject: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

Annwyl Elin,

Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Busnes ar 19 Hydref, estynnwyd y dyddiad cau i gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn tan 11 Tachwedd, a nododd y Trefnydd fod disgwyl i Femorandwm atodol gael ei osod yn ddiweddarach yr wythnos honno.

Ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, nid oedd y Memorandwm atodol wedi'i osod eto. Mae hyn yn golygu na allwn ystyried y Memorandwm atodol yn ein cyfarfod nesaf ar 4 Tachwedd. Gan ein bod yn disgwyl i'r Memorandwm atodol ymdrin â rhai materion sydd heb eu trafod eto, nid oes fawr o bwrpas cyhoeddi ein hadroddiad fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd nes ein bod wedi ystyried y Memorandwm atodol. O'r herwydd, hoffem ofyn am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad, gan ganiatáu digon o amser inni ystyried y Memorandwm atodol. Er gwybodaeth, ar 18 Tachwedd y mae ein cyfarfod Pwyllgor nesaf, sef y cyfle cyntaf a gawn i ystyried y Memorandwm atodol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Copi at: Huw Irranca-Davies MS, Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.